# Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus

## Gwybodaeth Allweddol

| | |
|---|---|
| **Yn Adrodd i:** | Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus |
| **Contract:** | Llawn amser, cyfnod penodol hyd at 31 Gorffennaf 2028 |
| **Cyflog:** | £25,091 i £31,486 y flwyddyn (fel arfer bydd apwyntiadau'n cael eu gwneud ar waelod y raddfa) |
| **Lleoliad:** | Cyfuniad o weithio yn y swyddfa (Caerdydd), mewn amryw o safleoedd e.e. mewn colegau, yn y Senedd, a gweithio o gartref |
| **Dyddiad cau:** | 21 Mehefin 2026 |

## Trosolwg o'r Rôl

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig i ymgymryd â rôl polisi a materion cyhoeddus cyffrous yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith.

Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Tîm Polisi a Chyfathrebu, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn helpu i hyrwyddo budd addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Byddant yn cynrychioli colegau addysg bellach ar lwyfan cenedlaethol, gan weithio'n agos gydag Aelodau Seneddol yn y Senedd a swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod a briffio llefarwyr pleidiau gwleidyddol perthnasol ac aelodau o bwyllgorau allweddol y Senedd, yn ogystal â chynnal gwaith ymchwil, dadansoddi (ansoddol a meintiol), a helpu i ddatblygu argymhellion polisi cyhoeddus. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu gweithio ar ei liwt ei hun yn ogystal fel rhan o dîm, a bydd ganddynt sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i ffurfio perthnasoedd gwaith cadarnhaol.

Bydd y swydd hon yn gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus weithio'n rheolaidd o swyddfeydd ColegauCymru yng Nghaerdydd, felly mae'r gallu i gymudo yn hanfodol. Efallai y bydd angen parodrwydd i deithio ledled Cymru, o fewn y DU ac yn rhyngwladol weithiau, a gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol hefyd.

## Prif Ddyletswyddau

- Monitro briffiau seneddol a ddarperir gan gontractwyr allanol i nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithgarwch materion cyhoeddus.
- Hyrwyddo ac amlygu ColegauCymru a gwaith y sector addysg bellach, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith, yn gadarnhaol i wleidyddion a'u staff ar draws pob plaid a chyda phartneriaid allanol eraill yn y llywodraeth, busnes, y byd academaidd a'r trydydd sector.
- Cefnogi drafftio ymatebion i ymgynghoriadau a dogfennau polisi.

- Cynnal ymchwil a dadansoddiad ansoddol a meintiol - gan gynnwys arolygon a gwerthuso - i lywio amrywiaeth o gynnwys polisi, prosiect ac ymgyrch ac mewn ymateb i geisiadau gan y sector.
- Helpu i ddatblygu negeseuon, gan gynnwys ymatebion i gyhoeddiadau gwleidyddol yng Nghymru, gan roi cyngor ar safbwyntiau polisi a gwleidyddol allweddol.
- Cefnogi’r tîm i redeg Grwpiau Trawsbleidiol y Senedd, gan gynnwys lledaenu gwybodaeth, cyn ac ar ôl digwyddiadau.
- Helpu i drefnu digwyddiadau perthnasol i gefnogi gwaith polisi a materion cyhoeddus ColegauCymru.
- Cynnal system gofnodi ar gyfer pob ymgysylltiad ag AS, gan gynnwys cyfarfodydd, digwyddiadau a dadleuon yn y Cyfarfod Llawn.
- Sicrhau systemau gweinyddol effeithiol i gofnodi a chadw ymatebion ymgynghori a gohebiaeth arall.
- Cynrychioli ColegauCymru mewn cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau yn ôl yr angen.
- Cynnal diddordeb mewn datblygiadau ym meysydd polisi cyhoeddus a gwleidyddol a’r sector addysg yn ehangach.
- Gweithio i gyllidebau y cytunwyd arnynt gyda chyflenwyr cymeradwy.
- Unrhyw dasgau cysylltiedig eraill yn ôl cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus.

## Gofynion yr Iaith Gymraeg

Mae ColegauCymru yn sefydliad dwyieithog balch ac mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn gaffaeliad i’r sefydliad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu gweithlu dwyieithog ac yn annog a chefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Anogir ymgeiswyr sydd ddim gyda sgiliau Cymraeg neu nad yw eu sgiliau ar hyn o bryd yn cyrraedd y lefel ddymunol ond sy'n gallu dangos ymrwymiad i wella lefel eu cymhwysedd i wneud cais. Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â ColegauCymru i drafod y gofyniad hwn.

## Manyleb y Person

| Meini Prawf Hanfodol |
|---|
| Dealltwriaeth y system wleidyddol yng Nghymru. |
| Profiad o weithio ym maes polisi, materion cyhoeddus neu'r system wleidyddol yng Nghymru (cyflogedig neu wirfoddol). |
| Profiad o weithio ym maes polisi, materion cyhoeddus neu'r system wleidyddol yng Nghymru (cyflogedig neu wirfoddol). |

| |
|---|
| Profiad o ysgrifennu ffurfiol e.e. ymatebion ymgynghoriadau ac adroddiadau. |
| Profiad o feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol ar draws ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol. |
| Safon ardderchog o Saesneg ysgrifenedig gan gynnwys y gallu i ysgrifennu mewn gwahanol arddulliau i weddu i gynulleidfaoedd gwahanol. |
| Sgiliau trefnu rhagorol gan gynnwys y gallu i flaenoriaethu'n effeithiol, gweithio o fewn amserlenni tynn ac yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. |
| Y gallu i weithio ar eich pen eich hun ac fel rhan o dîm. |
| Y gallu i ddefnyddio Pecynnau Microsoft Office a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. |
| **Meini Prawf Dymunol** |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisi addysg ôl-16, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith, yng Nghymru. |
| Sgiliau Cymraeg. |

**Gwiriad Datgeliad DBS**

Sylwch y gall yr ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad datgeliad DBS.

**Ymgeisio am y swydd hon**

Anfonwch CV sy'n dangos sut rydych chi'n bodloni Manyleb y Person, ynghyd â llythyr eglurhaol byr sy'n mynd i'r afael â'r cwestiynau isod. Ni ddylai'r ateb i bob cwestiwn fod yn fwy na 500 gair.

1. Beth ydych chi'n meddwl yw'r prif blaenoriaethau polisi sy'n wynebu'r sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith yn benodol yn y 18 mis nesaf?
2. Sut ydych chi'n meddwl y dylai ColegauCymru geisio mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn?
3. Beth yw'r prif gyfleoedd a rhwystrau?

Dylid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost i HR@colegaucymru.ac.uk

**Dyddiad Cau**
Y dyddiad cau ar gyfer y swydd wag hon yw **21 Mehefin 2026**.

**Cyfweliadau**
Cynhelir cyfweliadau ar **3 Gorffennaf 2026** yn swyddfeydd ColegauCymru yn Nhongwynlais, Caerdydd.